



Annwyl Rieni/Gofalwyr,

Yn gyntaf, diolch yn fawr am eich holl gefnogaeth a'ch cydweithrediad wrth i ni symud ymlaen drwy Dymor y Gwanwyn. Dyma ychydig o nodiadau i'ch hatgoffa o ddigwyddiadau tymor yma.

### **Lluniau Dydd Gwyl Dewi i'r Gazette**

Plant Meithrin a Derbyn yn unig – Dydd Llun, Chwefror 14eg. Fe all eich plant wisgo gwisg draddodiadol, crysau rygbi (dim jïns) neu wisgo lliwiau coch, gwyn a gwyrdd. Gofynnwn i chi roi enw'ch plentyn ar bopeth os gwelwch yn dda.

### **Hanner Tymor**

Dydd Llun, Chwefror 21ain-Dydd Gwener, Chwefror 25ain

### **Diwrnodau HMS**

Dydd Llun, 28ain o Chwefror

Dydd Gwener 29ain o Ebrill

Dydd Llun 20fed o Fehefin.

### **Wythnos Iechyd Meddyliol Plant 7/2/22-11/2/22**

Dydd Iau, Chwefror 10fed- Gwisgwch i fynegi'ch hun.

### **Dydd Gwyl Ddewi, Mawrth 1af**

Croeso i'r plant wisgo gwisg draddodiadol, crysau rygbi (ond dim jïns os gwelwch yn dda) neu i wisgo dillad coch, gwyn a gwyrdd.

### **Diwrnod y Llyfr, Dydd Iau, Mawrth 3ydd**

Fe fydden ni'n neud "Siop Cyfnewid". Gofynnwn i chi am rodd llyfr neu ddau sy mewn cyflwr buasech chi'n hoffi'ch plentyn dderbyn ei hunan. Anfonwch y llyfrau mewn erbyn Dydd Gwener, Chwefror 21ain os gwelwch yn dda. A fe fydd y plant yn dewis un llyfr 'newydd' i ddod adre ar Ddiwrnod y Llyfr.

### **Nosweithiau Rhieni**

Dydd Llun, Mawrth 21ain

Dydd Mercher, Mawrth

Diolch yn fawr

Mrs S Jayne

Pennaeth

